

PRICE (PRICAEUS), JOHN (c. 1600 - 1676), ysgolhaig clasurol a diwinydd

Enw: John Price
Dyddiad geni: c. 1600
Dyddiad marw: 1676
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: ysgolhaig clasurol a diwinydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Ysgolheictod ac leithoedd
Awdur: John James Jones

Ganwyd yn Llundain c. 1600, ei rieni yn Gymry. Addysgwyd ef yn Westminster, ac aeth oddi yno i Goleg Eglwys Crist, Rhydychen, yn 1617. Ond gan mai Pabydd ydoedd, nid ymaelododd, a gadawodd heb raddio. Aeth gyda Thomas Howard, un o feibion iarll Arundel, i'r Eidal, lle y cafodd y radd o Ddoethur yn y Gyfraith. Ar ôl dychwelyd i Loegr aeth i Iwerddon gyda'r iarll Strafford, a daeth yn gyfeillgar â'r archesgob Ussher. Yn ystod y Rhyfel Cartrefol ysgrifennodd amryw draethodau, na wyddys mo'u teitlau, ar ran plaid y brenin, ac am hyn carcharwyd ef. Wedi ei ryddhau dychwelodd i'r Cyfandir, a thua 1652 ymsefydlodd yn Florens. Gwnaeth y duc Ferdinand II ef yn Geidwad y Bathodau ac wedyn yn athro Groeg ym Mhrifysgol Pisa. Yn y diwedd ymsefydlodd yn Rhufain, lle y bu'r cardinal Francesco Barberini yn noddwr iddo. Treuliodd flynyddoedd olaf ei fywyd ym mynachdy S. Awstin, Rhufain, lle y bu farw yn 1676. Yr oedd Price, neu Pricaeus, fel yr arferai Ladineiddio ei enw, yn un o ysgolheigion clasurol disgleiriaf ei oes, ac ychwanegai at ei ddysgeidiaeth glasurol wybodaeth drylwyr o'r Ysgrhythurau a'r tadau eglwysig. Cyhoeddodd argraffiadau o *Apologia*, 1637, a *Metamorphoses*, 1650, Apwlews, a gwnaeth ddyfyniadau o'r llawysgrifau Groeg yn Llyfrgell Ymerodrol Vienna (rhai ohonynt yn awr yn yr Amgueddfa Brydeinig). Hefyd paratodd argraffiad o Hesychius o Alexandria, ond cyn ei fod yn barod cyhoeddwyd argraffiad Leyden, 1668, yr hwn, fodd bynnag, a gynhwysodd 'Index' Price i'r gwaith. Cyhoeddodd esboniadau ar amryw o lyfrau'r *Testament Newydd*, y rhai a ymddangosodd wedyn yn *Critici Sacri* yr esgob Pearson. Y mae dau o'i lythyrau at Jean Bourdelot,, yr ysgolhaig Ffrengig, wedi eu cyhoeddi yn *Deux lettres inédites de Jean Price d Bourdelot, publiées et annotées par P. T. de Larroque* (Paris, 1883).

Awdur

John James Jones, (1892 - 1957)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography, a'r awdurdodau a enwir yno

Anthony Wood, *Athenae Oxonienses* (1813–20)

Barker a Stenning, *The record of old Westminsters a biographical list of all those who are known to have been educated at Westminster school from the earliest times to 1927* (Llundain 1928)

Foster, *Alumni Oxonienses*

H. Blackwell, [NLW MS 9270A: A Dictionary of Welsh Biography](#)

British Museum. Catalogue of Printed Books (1882)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [25672399](#)

Wikidata: [Q6253395](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

